**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 14-00(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 25 Hydref 2000 |
| **Amser:** | 9.00am hyd 12.05pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgor, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ieuan Wyn Jones, yn dirprwyo dros Elin Jones | Ynys Môn |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| *Yn bresennol* | |
| Neil Taylor | Ffederasiwn y Busnesau Bach |
| Duncan Mackintosh | Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Einir Burrowes | CHM Canolbarth Cymru, Cyngor Cynghorau Hyfforddiant a Menter Cymru |
| Grenville Jackson | CHM Canolbarth Cymru, Cyngor Cynghorau Hyfforddiant a Menter Cymru |
| Bryn Roberts | Menter Cymru |
| Alun Jones | Menter a Busnes |
| Hywel Evans | Menter a Busnes |
| Graham Davey | Cyfarwyddwr Cynllunio, Datblygu ac Adfywio’r Economi, Cyngor Sir Powys, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Iwan Trefor Jones | Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Cynllunio a Datblygu Economaidd), Cyngor Gwynedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Ann Watkin | Awdurdod Datblygu Cymru |

| | |
|---|---|
| Yr Athro Terry Marsden | Ymgynghorydd Arbenigol |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie (eitem 3) | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a chyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Ieuan Wyn Jones, a oedd yn dirprwyo dros Elin Jones. Dywedodd wrth y Pwyllgor na fyddai'r Gweinidog yn ymuno â'r cyfarfod hyd oddeutu 11.30am gan ei fod yn teithio yn ôl o Ffair Fwyd ym Mharis. Gofynnodd i'r Aelodau ddatgan unrhyw fudd a oedd yn berthnasol i'r cyfarfod. Dywedodd Peter Rogers ei fod yn ffermwr, a Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio.

**Eitem 2: Adolygiad Arallgyfeirio** - ARD 14-00(p3): ARD 14-00(p4): ARD 14-00(p5): ARD 14-00(p6): ARD 14-00(p7)

2.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr y sefydliadau a wahoddwyd i'r cyfarfod.

2.2 Rhoddwyd anerchiadau byr gan Neil Taylor, yn cynrychioli Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru, a Duncan Mackintosh, yn cynrychioli Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru), a thynasant sylw at y prif bwyntiau a oedd yn eu papurau (ARD 14-00(p5) ac ARD 14-00(p7) yn y drefn honno). Yna gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau. Gofynnwyd y cwestiynau isod:

2.3 Beth oedd y prif elfennau a oedd yn rhwystro datblygiad busnesau yng Nghymru wledig a sut y gellid eu goresgyn?

- Dywedodd Duncan Mackintosh fod pellter daearyddol, yn ychwanegol at y rhwystrau a nodwyd yn ei bapur, yn achosi problem i ardaloedd gwledig Cymru. Yr oedd ar fusnesau angen y seilwaith angenrheidiol er mwyn sicrhau cyflenwadau a chysylltu â'r farchnad. Gallai'r seilwaith hwn fod yn gysylltiadau ffordd a rheilffordd ar gyfer busnesau cynhyrchu neu'n gysylltiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer mentrau sy'n seiliedig ar wybodaeth;
- Teimlai Neil Taylor fod ar fusnesau bach angen gwybodaeth am gyfraith cyflogaeth, rheoliadau amgylcheddol a rheoliadau eraill. Codai problemau'n aml wrth i fusnes dyfu a dod wyneb yn wyneb â materion o'r fath. Felly yr oedd angen cynnig cyngor busnes da drwy broses a oedd yn seiliedig ar afael yn llaw'r busnes yn ystod 9 i 18 mis cyntaf ei fodolaeth. Yr oedd Clwydfro, a oedd yn gallu darparu, neu ddarganfod ffynhonnell y cyngor angenrheidiol yn gyflym, yn enghraifft dda o'r dull hwn o weithredu.

2.4 Pa fath o fusnes oedd yn cynnig y potensial gorau ar gyfer twf yng Nghymru wledig ac a oedd

datblygu 'clystyrau busnes newydd' a 'chanolfannau deor' yng nghefn gwlad yn syniad da?

- Cytunodd Duncan Mackintosh fod deoryddion busnes yn syniad da. Dau sector a oedd yn cynnig cryn botensial ar gyfer twf yng Nghymru wledig oedd technoleg gwybodaeth a hamdden. Nid oedd pellter yn effeithio ar fusnesau a oedd yn seiliedig ar dechnoleg gwybodaeth yn yr un modd â diwydiannau cynhyrchu, ond nid oedd yn debygol y byddai llawer o swyddi’n cael eu creu yn y tymor byr. Yr oedd Oakwood Leisure yn enghraifft dda o’r hyn y gellid ei gyflawni yn y sector hamdden. Sefydlwyd y busnes drwy awydd i fentro a pharodrwydd i gymryd risg. Yr oedd prinder pobl a oedd yn barod i fentro yng Nghymru ac yr oedd angen hyfforddiant er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a chynnig anogaeth gan ddechrau’n gynnar mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion;
- Teimlai Neil Taylor hefyd fod angen newid agwedd. Er enghraifft, yn yr Unol Daleithiau ystyrid methiant mewn busnes yn aml fel profiad defnyddiol. Cytunodd hefyd fod angen gwneud mwy o ddefnydd o gyfleoedd fel y rhyngrwyd.

2.5 Sut y gellid targedu cronfeydd cyllido cyhoeddus a phreifat yn well tuag at anghenion busnesau sydd â llawer o botensial a pha fathau o gyllid fyddai’r rhai mwyaf priodol er mwyn datrys y problemau y mae busnesau gwledig newydd yn eu hwynebu?

- Credai Neil Taylor mai’r broblem fwyaf i lawer o fusnesau bach oedd bod grantiau’n galw am arian cyfatebol. Gallai benthyciadau hyblyg, naill ai drwy seibiant rhag llog neu log isel, fod yn ffordd effeithiol o helpu busnesau newydd i gasglu’r arian sydd ei angen. Yn ôl Clwydfro yr oedd 93% o’i fenthyciadau hyblyg yn cael eu had-dalu;
- Dywedodd Duncan Mackintosh fod busnesau bach a busnesau sy’n tyfu angen cyfalaf yn gyflym naill ai drwy grantiau neu drwy gyllid ecwiti. Yr oedd ar y rhai a oedd yn darparu cyfalaf ecwiti angen elw sylweddol o’u buddsoddiad oherwydd y risg. Yr oedd angen i grantiau fod yn amodol ar ddadansoddiad cyffelyb o risg er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei dargedu’n effeithiol.

2.6 Dadleuid yn aml bod y trefniadau presennol ar gyfer cefnogi busnesau yn dameidiog ac yn ddi-drefn. Sut y gellid datrys y broblem hon? Pa mor dda oedd Cyswllt Busnes am gyd-drefnu cefnogaeth i fusnesau gwledig a beth ddylai fod yn ei wneud yn well neu’n wahanol?

- Dywedodd Neil Taylor nad oedd pob darparwr cyngor busnes siop bob dim yn rhoi’r un gwasanaeth. Un o’r prif anawsterau oedd nad oedd busnesau bach yn gwybod pa gyngor busnes oedd ar gael. Yr oedd llawer heb wybod am Gyswllt Busnes ac yr oedd llawer o’r rhai a oedd yn gwybod amdano yn teimlo na allai eu helpu;
- Dywedodd Duncan Mackintosh fod y gwaith o gyd-drefnu cyngor busnes wedi ei adolygu fel rhan o’r Cynllun Gweithredu Mentergarwch. Yr oedd pob cynllun yn dibynnu ar y sawl a oedd yn cynnig y cyngor. Dylai’r person hwnnw gynnig ysbrydoliaeth ac annog darpar fentrwyr i gymryd risg.

2.7 Yr oedd y Pwyllgor wedi clywed bod gormod o asiantaethau cefnogi a chynghori. A ddylid cadw’r strwythur presennol ynteu ei ddiddymu?

- Dywedodd Neil Taylor fod Cyswllt Busnes wedi ei sefydlu er llai na dwy flynedd. Yr oedd nifer o asiantaethau ond yr oedd llawer yn gwneud gwaith da. Gellid gwella’r strwythurau presennol, efallai drwy wneud gwasanaethau’n seiliedig ar ardaloedd neu ranbarthau yn hytrach na siroedd, ond ni ddylid eu diddymu. Yr oedd siop bob dim ar gyfer cyswllt cychwynnol yn hanfodol, ynghyd â threfniadau wedi eu sefydlu er mwyn cysylltu â rhywun a allai roi cyngor arbenigol priodol;
- Cytunodd Duncan Mackintosh â’r asesiad hwn gan ychwanegu nad oedd gwr a gwragedd busnes yn aml yn gwybod pa gyngor busnes oedd ar gael na sut i gael gafael arno. Yn gyffredinol yr oedd ar fusnesau angen cyngor yn nyddiau cynnar eu bodolaeth ac yr oedd ei angen yn gyflym. Yr oedd siop bob dim yn haws i’w hysbysebu.

2.8 A oedd angen i’r colegau a’r prifysgolion chwarae rhan amlycach drwy weithredu fel canolfannau arbenigedd er mwyn helpu busnesau gwledig neu ddatblygu a chynhyrchu syniadau â photensial ar gyfer busnes, a sut y gellid gweithredu hyn? A oedd gan brifysgolion ran i’w chwarae drwy ychwanegu at werth busnesau presennol er mwyn cynyddu cynnyrch mewnwladol crynswth Cymru?

- Dywedodd Neil Taylor wrth y Pwyllgor fod perthynas dda rhwng Ffederasiwn y Busnesau Bach a’r prifysgolion a’r colegau. Fodd bynnag, nid oedd traddodiad o weithio mewn busnesau bach yng Nghymru ac yr oedd angen hybu’r syniad ymhlith graddedigion drwy gysylltiadau rhwng prifysgolion a cholegau a busnesau. Yr oedd nifer o enghreifftiau o gyrsiau crefft a oedd yn cynhyrchu graddedigion yr oedd galw amdanynt ym myd diwydiant. Byddai graddedigion hefyd yn elwa o amser a dreulid mewn diwydiant;
- Cytunodd Duncan Mackintosh fod angen ysbrydoli pobl i gychwyn busnes. Gallai prifysgolion hefyd fod yn adnodd gwerthfawr i bobl a oedd yn awyddus i sefydlu busnesau ac yr oedd angen sicrhau eu bod yn rhan o’r amrediad o gefnogaeth i fusnesau. Yr oedd angen i brifysgolion gynhyrchu mwy o raddedigion a oedd yn deall sut yr oedd busnesau’n gweithio;
- Dywedodd Ann Watkin wrth y Pwyllgor fod Rhaglen Canolfannau Arbenigedd yr Awdurdod Datblygu yn ceisio cysylltu arbenigedd â busnesau ac y gallai’r Awdurdod Datblygu roi mwy o wybodaeth am hyn yn y cyfarfod nesaf. Yr oedd xxx hefyd yn cyfeirio graddedigion at gwmnïau gwledig bach?

2.9 Sut y gellid cymhwyso Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn fwy effeithiol i anghenion busnesau gwledig a beth oedd y prif faterion a ddylai gael eu cynnwys yn y strategaeth TGCh yr oedd y Cynulliad yn ei datblygu?

- Teimlai Duncan Mackintosh fod cyfleoedd i fusnesau dyfu o amgylch TGCh yn hanfodol. Byddai angen sefydlu seilwaith ac addysg ond byddai’n brosiect tymor hir. Credai fod aelodau Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain yn ymwybodol o’r cyfle aruthrol yr oedd TGCh yn ei gynnig.

2.10 Yr oedd Ffederasiwn y Busnesau Bach wedi tynnu sylw at y ffaith fod y rhan fwyaf o'r busnesau a oedd yn mynd i'r wal yn methu oherwydd dyled o lai na £9,000. Pe darperid cymorth beth y gellid ei wneud er mwyn sicrhau na fyddai angen mwy o gymorth yn ddiweddarach?

- Dywedodd Neil Taylor fod dau fath o fusnes; y rhai a oedd yn hyfyw a'r rhai hynny nad oeddent yn hyfyw. Yr oedd gan fusnesau hyfyw broblemau llif arian dros dro yn aml a dylid eu cefnogi. Ni ddylid achub croen busnesau nad oeddent yn hyfyw.

2.11 Diolchodd y Cadeirydd i Neil Taylor a Duncan Mackintosh am eu cyfraniadau.

2.12 Rhoddwyd anerchiadau byr gan Einir Burrowes a Grenville Jackson yn cynrychioli Cyngor Cynghorau Hyfforddiant a Menter Cymru, Bryn Roberts yn cynrychioli Menter Cymru, Alun Jones a Hywel Evans yn cynrychioli Menter a Busnes a Graham Davey ac Iwan Trefor Jones yn cynrychioli Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a thynasant sylw at y prif bwyntiau a oedd yn eu papurau (ARD 14-00(p3), ARD 14-00(p4) ac ARD 14-00(p5) yn y drefn honno). Gofynnwyd i gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddarparu copïau o strategaethau datblygu gwledig pob sir. Yna gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau. Gofynnwyd y cwestiynau isod:

2.13 Sut oedd y sefydliadau'n rhoi sylw i faterion a oedd yn ymwneud â busnesau gwledig a pha mor ragweithiol oeddent wrth nodi'r angen am gefnogaeth i fusnesau. Gofynnwyd hefyd i gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) sut yr oedd eu hawdurdodau'n datblygu strategaethau gwledig.

- Dywedodd Graham Davey fod y profiad o ddod â'r partneriaethau lleol at ei gilydd ar gyfer cronfeydd strwythurol Ewropeaidd wedi bod yn ddefnyddiol iawn ac y byddai'n eu paratoi ar gyfer y gwaith o ddatblygu strategaethau cymunedol. Teimlai fod unrhyw ddryswch yngln â darparu cefnogaeth i fusnesau yn cael ei ddatrys drwy fwy o ymwybyddiaeth a threiddiad;
- Dywedodd Iwan Trefor Jones fod y sectorau preifat a chymunedol wedi bod yn ymwneud llawer â'r gwaith datblygu yng Ngwynedd a bod strategaeth ardaloedd gwledig gyda thargedau pendant wedi ei pharatoi. Yr oedd gan awdurdodau lleol ran ganolog i'w chwarae wrth ddod â gwahanol feysydd polisi, megis cynllunio, tai a datblygu economaidd at ei gilydd;
- Yr oedd Bryn Roberts yn awyddus i bwysleisio na ddylai Cyswllt Ffermwyr fod ar wahân i Gyswllt Busnes ac na ddylai ychwaith roi baich gweinyddol ychwanegol ar ysgwyddau ffermwyr.
- Disgrifiodd Grenville Jackson rôl Gweithwyr Maes y CHM wrth iddynt gysylltu'n rhagweithiol â busnesau, ond dywedodd fod prinder adnoddau'n rhwystro'r CHM rhag cyrraedd cyfran fwy o'r boblogaeth fusnes. Pwysleisiodd fod angen i gwmnïau sylweddoli gwerth hyfforddiant ac awgrymodd y byddai cysylltu grantiau cyfalaf a refeniw â hyfforddi ac arloesi yn helpu i gynyddu nifer y bobl a fyddai'n dilyn cyrsiau hyfforddi;
- Dywedodd Alun Jones wrth y Pwyllgor fod Cwysi yn ddull gweithredu rhagweithiol drwyddo draw, a'i fod yn cael ei ddarparu drwy hwyluswyr lleol er mwyn ysgogi diddordeb a datblygu'r awydd i fentro. Pwysleisiodd Hywel Evans pa mor bwysig oedd cyswllt personol, yn enwedig gyda theuluoedd sy'n ffermio, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd.

2.14 Sut oedd y sefydliadau'n gwahaniaethu rhwng busnesau o wahanol fath a maint wrth gynnig cefnogaeth ac i ba raddau yr oedd y gefnogaeth a roddid wedi ei haddasu ar gyfer cwmnïau newydd o gymharu â chwmnïau hn neu weithgareddau fferm a gweithgareddau heb fod yn gysylltiedig â fferm?

- Teimlai Bryn Roberts fod bwlch i'w lenwi o safbwynt darparu cyngor i fusnesau a oedd yn cyflogi rhwng 50 a 250 o bobl. Y busnesau hyn oedd yn fwyaf tebygol o helpu i gynyddu'r cynnyrch mewnwladol crynswth. Yr oedd cwmnïau o'r fath, fodd bynnag, yn aml braidd yn gyndyn o gymryd risg a heb fod yn awyddus i ehangu mwy;
- Dywedodd Alun Jones ei bod yn ofynnol i holl gyd-drefnwyr Cwysi adnabod eu cynulleidfa ac yr oeddent hwy eu hunain i gyd yn aelodau o deuluoedd a oedd yn ffermio. Yr oedd angen cyngor ar lawer o faterion amrywiol ac yr oedd hyn yn galw am rwydwaith eang o ddarparwyr cyngor;
- Dywedodd Einir Burrowes fod Cyngor Hyfforddi a Menter Canolbarth Cymru'n canolbwyntio ar bedwar sector sy'n bwysig i'r rhanbarth; prosesu bwyd, twristiaeth, cynhyrchu a gwasanaethau masnachol. Eglurodd hefyd fod cefnogaeth y CHM yn cael ei hanelu at y busnesau llai. Nod y CHM wrth ganolbwyntio ar sectorau allweddol a busnesau llai oedd gwneud y rhanbarth yn fwy cynhyrchiol, a thrwy hynny gynyddu'r cynnyrch mewnwladol crynswth. Ychwanegodd Grenville Jackson fod cwmnïau mwy a oedd yn cyflogi 50 neu fwy o bobl yn deall y system ar y cyfan ac wedi sefydlu cysylltiadau gyda'r Awdurdod Datblygu. Dylai ymgynghorwyr busnes anelu at wneud cwmnïau'n fwy llwyddiannus a sicrhau eu bod yn gallu cystadlu o safbwynt ansawdd neu mewn marchnadoedd arbenigol y tu allan i Gymru. Un broblem wrth ganolbwyntio ar gwmnïau bach, fodd bynnag, oedd mai nifer cymharol fychan o swyddi oedd yn cael eu creu a hynny ar ôl llawer iawn o waith, ac nid oedd hyn yn cynnig anogaeth i asiantaethau a oedd yn cael eu harolygu ar sail targedau gweithgaredd tymor byr, megis swyddi a grëwyd.

2.15 Dadleuid yn aml bod y trefniadau presennol ar gyfer cefnogi busnesau yn dameidiog ac yn ddi-drefn. Sut y gellid datrys y broblem hon?

I ba raddau yr oedd gweithgareddau'r sefydliadau'n ategu eraill megis strategaethau ehangach y Cynulliad a'r Awdurdod Datblygu neu weithgareddau eraill ar lefel is yn y gymuned?

- Dywedodd Hywel Evans fod integreiddio'n bwysig ond bod angen ystyried yn ofalus sut y gellid gwneud hyn. Teimlai fod y cyswllt personol rhwng cyd-drefnwyr Cwysi a'r teuluoedd a oedd yn ffermio yn elfen bwysig o lwyddiant y cynllun. Y wers i eraill a oedd yn darparu cefnogaeth a chyngor oedd bod angen rhoi sylw pendant i'r cwsmer. Crybwyllodd Alun Jones fod angen sbarduno diddordeb ymhlith teuluoedd sy'n ffermio;
- Dywedodd Grenville Jackson fod angen strategaeth sefydlog dymor hir ar gyfer datblygu gwledig, ac anelu at atebion cytunedig. Yr oedd dull gweithredu Partneriaeth Canolbarth Cymru'n debyg i hyn. Yr oedd gan gyrff cyhoeddus unigol gyfrifoldeb i gyflwyno adroddiad yngln â'u cyfrifoldebau eu hunain ond teimlai fod angen arfarnu effaith gwaith yr asiantaethau amrywiol yn ei gyfanrwydd. Awgrymodd fod yma rôl bosibl i bwyllgorau rhanbarthol y Cynulliad. Gan nad oedd strategaeth gytunedig ar gyfer ardaloedd gwledig, yr oedd yr asiantaethau yn naturiol yn canolbwyntio ar y targedau gweithgaredd tymor byr a ddefnyddid fel

sylfaen ar gyfer eu harfarnu. Golygai hyn fod y swyddi yr oeddent yn helpu i'w creu yn cael eu cyfrif ddwywaith, ac nid oedd darlun clir o'u heffaith a'u heffeithiolrwydd;

- Cytunodd Bryn Roberts fod yr enghraifft o Ganolbarth Cymru yn un a oedd yn gweithio. Ychwanegodd fod Menter Cymru'n gweithredu mewn ffordd integredig a chynhwysol;
- Dywedodd Graham Davey fod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ceisio darparu llywodraeth gydgysylltiedig a oedd yn canolbwyntio ar y gymuned. Rhybuddiodd na ddylid ystyried dehongliad cyfyng o gymunedau difreintiedig yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, a fyddai'n diystyru llawer o'r ardaloedd gwledig difreintiedig ac yn creu partneriaethau ar lefel gyfan gwbl newydd ar gyfer llywodraeth leol ac eraill. Dadleuodd fod angen cyflwyno grantiau menter y drydedd reng er budd ardaloedd gwledig dwyrain Cymru yn fwyaf arbennig a hefyd er mwyn darparu mannau gwaith arbenigol. Anogodd y Cynulliad hefyd i sicrhau bod y gwasanaeth Cyswllt Ffermwyr arfaethedig yn cael ei integreiddio'n dda â Chyswllt Busnes ac yn cael ei saernïo er mwyn sicrhau bod ffermwyr yn gallu ei ddefnyddio'n rhwydd, a bod swyddogaethau darparwyr gwasanaeth wedi eu diffinio'n glir.

2.16 Beth oedd y prif flaenoriaethau mewn perthynas â Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a datblygu busnesau gwledig?

- Dywedodd Bryn Roberts fod hyfforddiant yn hanfodol ac y dylid integreiddio'r gwaith o'i ddarparu â chyngor a chefnogaeth i fusnesau;
- Nododd Grenville Jackson y dylai unrhyw strategaeth TGCh gael ei datblygu ar y cyd. Ni ddylai'r Cynulliad ddyblygu gwaith Cymdeithas Wybodaeth Cymru. Yr oedd angen rhoi sylw buan a sicrhau adnoddau priodol ar gyfer unrhyw ddatblygiad a awgrymid.

2.17 A oedd digon o wybodaeth am y farchnad lafur a'r sector busnes ar gael er mwyn cynllunio ac arfarnu'r gefnogaeth a gynigid?

- Teimlai Bryn Roberts fod gan asiantaethau menter ddigon o wybodaeth trwy arolygon fel yr Asesiad Blynyddol o'r Farchnad Lafur a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Busnes ond mynegodd bryder y gallai'r gwaith ymchwil a wnaethpwyd gan y Cynghorau Hyfforddi a Menter gael ei golli pan fyddent yn cael eu diddymu fis Mawrth nesaf;
- Dywedodd Grenville Jackson fod y prif gyrff yn rhannu gwybodaeth drwy Fforwm Ymchwil Cymru. Yr oedd angen mwy o wybodaeth yngln â chyflwr y farchnad lafur, ond mater allweddol i'r Tasglu Sgiliau oedd hwn;
- Teimlai Alun Jones y gellid mesur cyflwr y diwydiant ffermio yn ôl nifer yr ymholiadau a dderbynnid drwy gyd-drefnwyr Cwysi.

2.18 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfranwyr i gyd a gofynnodd iddynt wneud nodyn o unrhyw faterion a oedd yn codi y teimlent y dylid eu dwyn i sylw'r Pwyllgor. Gweler nodyn pellach gan CLlLC.

**Eitem 3: Adroddiad Ysgrifennydd y Cynulliad** - ARD 14-00(p1)

3.1 Dywedodd y Gweinidog ei fod yn teimlo bod Ffair Fwyd SIAL ym Mharis wedi bod yn llwyddiannus iawn a bod yr arddangoswyr o Gymru wedi cael nifer o ymholiadau, yn enwedig yn y sectorau cig a chaws. Ychwanegodd y Cadeirydd fod y diwydiant yn dal i wynebu anawsterau, ond ei fod mewn sefyllfa i fanteisio ar gyfleoedd a fyddai'n codi yn y dyfodol.

3.2 Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau ar adroddiad y Gweinidog a chodwyd y materion isod:

- caniataodd y Gweinidog gais am restr o'r holl geisiadau ar gyfer prosiectau Amcan 1 a oedd yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth a datblygu gwledig;
- gofynnwyd i'r Gweinidog am ddatganiad ar Gwmni Cig Gymru. Dywedodd y byddai datganiad yn cael ei wneud cyn gynted ag y byddai datganiadau terfynol yn cael eu gwneud;
- croesawyd y penderfyniad i sefydlu grp strategaeth ar faterion yn ymwneud â chnydau a addaswyd yn enetig. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor mai rôl y grp strategaeth fyddai dylanwadu ar bolisi Ewrop a'r DG. Gobeithiai y gallai'r grp helpu i ddatblygu polisi a fyddai'n batrwm i weddill y DG;
- cyfeiriwyd at yr achos o lygredd yn Afon Ddyfrdwy. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n siarad gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor;
- mynegwyd pryder, gan fod y teitl wedi ei newid i "Weinidog dros Faterion Gwledig", y byddai materion amgylcheddol yn cael llai o sylw. Sicrhaodd y Gweinidog y Pwyllgor na fyddai hynny'n digwydd. Yr unig reswm dros y newid oedd byrhau'r teitl: nid oedd y portffolio na phwysigrwydd amaethyddiaeth wedi newid;
- gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd ganddo unrhyw wybodaeth yngln â faint o gig o Gymru a oedd yn cael ei brosesu yng ngwaith Cig St Mirrin ym Merthyr Tudful. Mynegwyd pryder hefyd bod lloi o Gymru a fwriadwyd ar gyfer y farchnad allforio yn cael eu hanfon o Gymru er mwyn eu lladd a thynnu'r cig oddi ar yr asgwrn, a bod y costau'n uchel. Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd modd gwneud rhywbeth fel bod modd i'r gwaith hwn gael ei wneud yng Nghymru. Dywedodd fod y digwyddiad diweddar gyda'r protestwyr yn y gwaith cig yn destun gofid. Deallai fod St Mirrin wedi cynnig cyfle i'r protestwyr archwilio'i lyfrau a byddai'n dda o beth meddai pe bai'r cynnig hwn wedi ei dderbyn cyn dechrau gweithredu. Ychwanegodd fod y gwaith cig yn gyfleustra pwysig i Gymru. Nododd y Pwyllgor fod rheolau'r cynllun allforio a oedd yn seiliedig ar ddyddiad yn llym iawn ac nad oedd unrhyw ladd-dy wedi ei ddynodi ar gyfer y cynllun yng Nghymru. Yr oedd trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r Awdurdod Datblygu er mwyn ystyried y posibilrwydd o sefydlu cyfleustra yng Nghymru ond nid oedd hwn yn ddewis economaidd ar hyn o bryd;
- gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'n pwyso am iawndal arian-amaeth ar gyfer sector âr Cymru a oedd yn wynebu anawsterau difrifol. Dywedodd fod y mater wedi ei drafod yng nghyfarfod y gweinidogion tiriogaethol yr wythnos diwethaf ac y byddai'n parhau i ddwyn cryn bwysau ar y Trysorlys i ystyried yr achos;
- mynegwyd pryder hefyd na fyddai digon o arian ar gael i weithredu argymhellion yr Adolygiad o Bysgodfeydd Eogiaid a Dr Croyw. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ystyried y mater pan fyddai'n derbyn cynigion penodol;
- yr oedd dyfodol Ffair Fwyd Llangollen yn y fantol oherwydd prinder arian a gofynnwyd i'r Gweinidog ystyried unrhyw gais am arian yn ofalus. Dywedodd y Gweinidog fod y mater wedi ei

ddwyn i’w sylw eisoes a chytunodd y byddai’n drueni pe bai’r Ffair yn dod i ben;
- mewn ymateb i ymholiad dywedodd y Gweinidog fod sioeau pen ffordd Tir Mynydd wedi dechrau a bod nifer dda’n eu mynychu.

*Pwyntiau gweithredu*

3.3 Rhestr o’r holl geisiadau ar gyfer prosiectau Amcan 1 a oedd yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth a datblygu gwledig i’w darparu. (Ceir copi o'r nodyn a ddarparwyd yn atodiad 2) - **Gweinidog**

3.4 Nodyn i’w ddarparu yngln â chanlyniad y cyfarfod rhwng y Gweinidog ac Asiantaeth yr Amgylchedd yngn â’r achos o lygredd yn Afon Ddyfrdwy (Ceir copi o'r nodyn a ddarparwyd yn atodiad 3) - **Gweinidog**

**Eitem 4: Cofnodion cyfarfod 11 Hydref** - ARD 13-00(min)

4.1 Mabwysiadodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 11 Hydref.

**Ysgrifenyddiaeth** **Hydref 2000**

---

**Annex 1**

**Cyhoeddir yr atodiad hwn yn yr iaith y’i derbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.**

**WELSH LOCAL GOVERNMENT ASSOCIATION**

| | |
|---|---|
| **Our Ref/Ein Cyf:** | RJ//17.12.04 |
| **Your Ref/Eich Cyf:** | |
| **Date/Dyddiad:** | 24 November 2000 |
| **Please ask for/Gofynnwch am:** | Rachel Jones |
| **Direct line/Llinell uniongyrchol:** | |
| **Email/Ebost:** | rachel.jones@wlga.gov.uk |

Mr Rhodri Glyn Thomas, Chair
Agriculture and Rural Development Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Dear Rhodri

**WLGA'S EVIDENCE TO ASSEMBLY'S DIVERSIFICATION REVIEW**

Thank you for the opportunity for the Association to submit evidence to the Agriculture and Rural Development Committee on Wednesday 25th October 2000. We hope you found our evidence useful and that it will subsequently be used to inform the outcome of the Committee's Diversification Review.

Following the meeting we would like to confirm the additional points that we made orally:

**1. The importance of a Tier 3 scheme in Wales**. This will ensure that Small and Medium Enterprises are not disadvantaged by those businesses with access to Tier 3 funding in parts of bordering England. As community leaders, local authorities should deliver the scheme. This will ensure integration with local authority business finance schemes.

**2. Business Connect should be strengthened as the main delivery mechanism for business support.** Business Connect is an effective means of delivering co-ordinated business support. In Powys, for example, the local authority works in partnership with the WDA to deliver services as part of a "one stop shop". The structure has proved to be very successful in assisting business with other areas of Wales looking to adopt this set-up.

**3. Rural workspace should be provided for diversification purposes.** Specialised workspace provision is needed in rural areas to assist small business diversification. This is illustrated by the success of Powys County Council's network of over 150 small business premises to rent in 14 small towns and villages across the county. Public sector funding or support by the Welsh Development Agency and local government will be needed to achieve such developments.

**4. The Assembly's Business Support Review should build on the good practice that *already* exists.** The evidence submitted by the Association gives examples of current good practice that already exists. Local authorities are ideally placed to provide business support that meets local need. This should be taken into consideration in the forthcoming Assembly's Business Support Review.

**5. Farm Innovation Service.** It is important that the Farm Innovation Service – "Farming Connect" is co-ordinated and complementary to existing services offered by Business Connect. There must be clarity of access for farmers, with a network of first stop shops for general advice, supported by specialist providers each with a clearly defined remit.

**6. The importance of partnership working.** Local authorities act as facilitators to bring different partners together to help promote the interests of business. There is a need to encourage local communities to play a central role in the regeneration process and to enable them to respond to their problems by identifying new economic opportunities. Gwynedd Council's "Cwlwm Gwledig" scheme was highlighted in the meeting, which aims to stimulate a spirit of enterprise in rural communities and develop and implement a series of community-led economic regeneration action plans. Regeneration works best when the focus comes from the community, with local people addressing local problems and identifying local solutions.

**7. The importance of integration.** Local authorities have statutory duties to provide key services and infrastructure such as planning, housing, transport and education. Many local authorities have worked in partnership with the private and voluntary sectors to develop economic and rural strategies that co-ordinate activity and identify outputs and targets. These strategies are produced in response to local conditions and needs and should be integrated into the development of a National Economic Development Strategy.

**8. The Community First Initiative.** It will be crucial for this National Assembly initiative to provide the flexibility needed to apply resources effectively in rural areas, where deprivation is widely dispersed, not concentrated in a few communities. A narrow application of the new Welsh Index of Multiple Deprivation would be counter-productive: further research is needed to ensure that rural deprivation is adequately addressed in this Index. It will be important for the Assembly's Communities First initiative to avoid the imposition of a further tier of partnerships, but rather support the new community planning duty placed on local authorities by the Local Government Act 2000.

As requested in the Committee, we are happy to provide you with examples of economic and rural development strategies that have been produced by local authorities in Wales. We are in the process of collating them and will forward them onto you shortly.

The Association's spokesperson on Agriculture and Rural Development will also be writing separately to you and the Assembly Minister about the wider question of agriculture in rural communities.

In the meantime, if you require any further information from the Association, please do not hesitate to contact us.

Yours sincerely

| | |
|---|---|
| **Graham Davey**<br>Director of Planning, Economic Development and Regeneration, Powys County Council,<br>Welsh Local Government Association | **Iwan Trefor Jones**<br>Assistant Director (Planning & Economic Development), Gwynedd Council,<br>Welsh Local Government Association |

---

Atodiad 2

## Details of Applications Received and their status within the database

Programme: OBJECTIVE 1, EAGGF Application 1

Description of **5. 1**

| Sponsor Name: | Project | Project Title: | Grant Applied For: | Status: |
|---|---|---|---|---|
| Welsh Development Agency - Food Directorate | **52844** | Agri-food Development Scheme | £10,669,136.00 | Project Under Consideration |
| | | Total Projects for Measure 5.1 :**1** | £10,669,136.00 | |

Description of **5.2**

| Sponsor Name: | Project | Project Title: | Grant Applied For: | Status: |
|---|---|---|---|---|
| SPARC | **52831** | An Integrated Approach to assisting the | £187,543.00 | Project Under Consideration |
| Welsh Development Agency - Food Directorate | **52846** | Agri-food Development Scheme (M2) | £3,330,000.00 | Project Under Consideration |
| Welsh Development Agency - Food Directorate | **52733** | Farm Innovation Service Development Fund | £527,716.00 | Project Under Consideration |
| | | Total Projects for Measure 5.2 : **3** | £4,045,259.00 | |

Description of **5.3**

| Sponsor Name: | Project | Project Title: | Grant Applied For: | Status: |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Coed Cymru | **52681** | Coed Cymru Farm Woodland Project | £508,000.00 | Project Under Consideration |
| Conwy County Borough Council | **52699** | Coed Conwy (phase 1) | £14,010.00 | Project Under Consideration |
| Forestry Commission | **52732** | Cyd Coed | £1,951,000.00 | Project Under Consideration |
| Forestry Commission | **52730** | Shelterwoods | £353,000.00 | Project Under Consideration |
| Torfaen County Borough Council | **52823** | TORFAEN COMMUNITY WOODLANDS | £231,800.00 | Project Under Consideration |
| University of Wales, Bangor | **52729** | Tyfiant Coed | £152,798.00 | Project Under Consideration |
| | | Total Projects for Measure 5.3 : **6** | £3,210,608.00 | |

Description of **5.4**

| Sponsor Name: | | Project Project Title: | Grant Applied For: | Status |
|---|---|---|---|---|
| Menter Mon | **52585** | MONWLEDIG | £1,186,500.00 | Project Under Consideration |
| Pembroke Town Council | **52869** | Pembroke Town Walls | £12,500.00 | Project Under Consideration |
| Pembrokeshire County Council | **52835** | Pembroke Dock Heritage Lottery Grant | £63,750.00 | Project Under Consideration |
| Pembrokeshire County Council | **52836** | Pembroke Dock Heritage Lottery Grant | £15,000.00 | Project Under Consideration |
| Quayshelfco 785 Ltd AKA Slebech Park Ltd | **52861** | SLEBECH PARK CONFERENCE & | £1,317,607.00 | Project Under Consideration |
| SPARC | **52841** | Supporting Communities | 1,205,371.00 | Project Under Consideration |
| SPARC | **52839** | Support & Development of Quality Niche | £545,889.00 | Project Under Consideration |
| SPARC | **52837** | Promoting Enterprising Communities | £249,837.00 | Project Under Consideration |
| WG; E; I Davies | **52866** | Horse Enterprise | £7,250.00 | Project Under Consideration |
| | | Total Projects for Measure 5.4 : **9** | £4,603,704.00 | |

Description of **5.5**

| Sponsor Name: | Project : | Project Title | Grant Applied For: | Status: |
|---|---|---|---|---|
| Conwy County Borough Council | **52698** | Conwy Farm Diversification Scheme | £130,000.00 | Project Under Consideration |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ELGAN JONES | **52819** | LIVERAGE CWMANN | £96,322.00 | Project Under Consideration |
| SPARC | **52845** | An Integrated Approach to assisting the | £100,320.00 | Project Under Consideration |
| Welsh Development Agency - Food Directorate | **52847** | Agri-food Development Scheme (M5) | £4,645,500.00 | Project Under Consideration |
| Welsh Development Agency - Food Directorate | **52723** | Farm Innovation Service Development Fund | £1,026,352.00 | Project Under Consideration |
| | | Total Projects for Measure 5.5 : **5** | £5,998,494.00 | |

Description of **5.7**

| Sponsor Name: | Project | Project Title: | Grant Applied For | Status |
|---|---|---|---|---|
| Caerphilly County Borough Council | **52803** | CAERPHILLY COMMON STUDY | £6,000.00 | Project Under Consideration |
| City and County of Swansea, Planning | **52838** | CAPITILISING SWANSEA'S NATURAL | £349,231.00 | Project Under Consideration |
| Conwy County Borough Council | **52593** | Biodiversity Action Plan (phase 1) | £68,286.00 | Project Under Consideration |
| Conwy County Borough Council | **52598** | Biodiversity and Landscape Grant for Conwy | £68,250.00 | Project Under Consideration |
| Conwy County Borough Council | **52600** | Hiraethog Dev and Mgt Project | £9,000.00 | Project Under Consideration |
| Denbighshire County Council | **52666** | Denbighshire Countryside Grant Scheme | £89,259.00 | Project Under Consideration |
| Menter Mon | **52588** | MONAMGYLCHEDD | £618,050.00 | Project Under Consideration |
| Rhondda Cynon Taff CBC | **52863** | LOCAL BIODIVERSITY-ACTION FOR | £70,000.00 | Project Under Consideration |
| Rhondda Cynon Taff CBC | **52842** | GREEN ROUTES FOR HEALTHY | £60,000.00 | Project Under Consideration |
| RSPB Cymru | **52728** | Chough Habitat Restoration Projec | £121,071.00 | Project Under Consideration |
| RSPB Cymru | **52725** | RSPB Reserves Restoration and Recovery | £90,735.00 | Project Under Consideration |
| RSPB Cymru | **52724** | Adding Environmental Value to Welsh | £68,591.00 | Project Under Consideration |
| the National Trust Wales | **52731** | Nantgwynant Phase 1 | £160,335.00 | Project Under Consideration |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Woodland Trust | **52726** | Restoration and sustainable management of | £397,938.00 | Project Under Consideration |
| | | Total Projects for Measure 5.7 : **14** | £2,176,746.00 | |

---

**Atodiad 3**

## GWYBODAETH DDIWEDDAR AM ARCHWILIAD ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD O'R DIGWYDDIAD A LADDODD NIFER FAWR O BYSGOD AR YR AFON DDYFRDWY

Mewn cyfarfod ar 25 Hydref, gofynnodd aelodau'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i'r Gweinidog am wybodaeth ynghylch y llygredd ar yr Afon Ddyfrdwy a laddodd nifer fawr o bysgod. Roedd yn fwriad gan y Gweinidog gwrdd ag Asiantaeth yr Amgylchedd (AA) y prynhawn hwnnw i drafod materion eraill yn ymwneud â physgodfeydd, a chytunodd i godi'r mater gyda swyddogion yr Asiantaeth. Ychydig iawn o wybodaeth oedd gan swyddogion AA am y digwyddiad, ond ers hynny maent wedi darparu'r wybodaeth ganlynol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn parhau â'i waith i benderfynu beth achosodd i'r holl bysgod gael eu lladd ar yr afon yn gynharach eleni, a achosodd i lif o ddwr diocsigenedig symud i lawr yr afon am 34 km dros gyfnod o 50 awr. Lladdwyd dros 100,000 o bysgod, gan gynnwys 10 math o bysgod bras a thua o 100 eogiaid a sewin. Pan archwiliwyd y pysgod marw a dadansoddi'r feinwe, ni welwyd olion unrhyw lygredd.

Y tro cyntaf y tynnwyd sylw at y digwyddiad oedd bore Sadwrn (29ain Gorffennaf), a hynny ar ôl noson stormus o fellt a tharanau difrifol yn nalgylch rhan ganol y Ddyfrdwy.

Ar y diwrnod cyntaf ar ôl y digwyddiad, adolygodd yr Asiantaeth bopeth a allai fod wedi achosi'r fath beth, a rhoddwyd cynllun ar waith i archwilio pob un o'r achosion posibl fel mater o flaenoriaeth. Y tasgau ar frig y rhestr oedd archwilio a oedd yr afon wedi cael ei gwenwyno'n fwriadol, a oedd rhywbeth wedi'i ollwng i'r afon o ffatri neu fferm - o ganlyniad i ddamwain efallai, a oedd rhywun wedi ceisio cael gwared â gwastraff yn anghyfreithlon ac a oedd rhywun wedi llygru'r afon yn fwriadol.

Pan oedd y gwaith hwn ar y gweill, aeth yr Asiantaeth ati hefyd i archwilio a allai'r tywydd anarferol yn union cyn y digwyddiad fod wedi ei achosi neu wedi cyfrannu ato mewn rhyw fodd. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i geisio deall a allai mwd anocsig o rai o lednentydd y Ddyfrdwy fod wedi achosi'r digwyddiad.

Ar ôl arolygu'r poblogaethau o bysgod yn yr ardal berthnasol, gwelwyd bod 90% o ostyngiad yn nifer y pysgod i lawr yr afon o Farndon a bod pysgod mawr sy'n bwysig i bysgota a magu wedi cael eu lladd bron yn gyfan gwbl. Mae hyn yn debygol o gael effaith arwyddocaol economaidd-gymdeithasol fydd yn arwain at golled o tua £150k i'r economi leol dros 3 blynedd.

Er gwaethaf yr holl archwiliadau a wnaed ac sy'n parhau i gael eu gwneud, ni lwyddwyd i benderfynu hyd yma beth yn union a laddodd y pysgod. Serch hynny, gwyddys bod beth bynnag a aeth i mewn i'r afon wedi cael effaith sydyn iawn ar y lefelau ocsigen gwasgaredig. Mae'n bosibl bod patrymau anarferol y tywydd ar y dydd Gwener a'r dydd Sadwrn dan sylw wedi bod yn gyfrifol, ond ni ellir diystyru'n llwyr y posibilrwydd bod trosedd wedi'i chyflawni neu fod rhywun wedi rhoi rhywbeth yn yr afon yn fwriadol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r arfer o ledaenu mathau penodol o hylifau gwastraff diwydiannol ar dir wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r gwastraff hwn yn eithriedig o'r trefniadau rheoli y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy wrth gael gwared â mathau eraill ar wastraff. Ni ellir diystyru'n llwyr y posibilrwydd y gallai'r dull hwn o gael gwared â gwastraff fod yn gyfrifol mewn rhyw fodd.

Mae'r Asiantaeth wedi cynnal adolygiad trwyadl o'r digwyddiad gyda chymorth uwch aelod o staff Rhanbarth Gogledd Orllewin yr Asiantaeth. Mae'r tîm wedi cael tystiolaeth oddi wrth y staff perthnasol ac mae wedi cael pob cyfle i weld yr holl ddogfennau a baratowyd yn ystod y digwyddiad. Disgwylir adroddiad y panel adolygu cyn bo hir.

Mae llawer o'r ymdrechion diweddaraf wedi bod yn gysylltiedig ag adfer y Ddyfrdwy fel afon i bysgota ynddi. Mae'n debyg y cymerir hyd at 7 mlynedd iddi adfer ei hun yn naturiol. Mae cyfarfod eisoes wedi cael ei gynnal gyda'r sawl sydd â buddiannau pysgota ar rannau isaf y Ddyfrdwy a chafwyd cefnogaeth unfrydol i'r cynnig i sefydlu grwp llywio i weithio mewn partneriaeth gyda'r Asiantaeth i ddatblygu a gweithredu cynllun adfer. Mae'r cynllun yn debygol o olygu ail-lenwi'r afon â physgod er mwyn cyflymu'r broses adfer, gwella'r cynefinoedd i'w gwneud yn haws i'r afon gynhyrchu pysgod yn naturiol a monitro mwy ar ansawdd y dwr a'r pysgod. Mae cyflawni'r cynllun hwn yn debygol o gostio £150k yn ychwanegol yn ystod y tair blynedd nesaf ac felly bydd angen mwy o gyllid.

Mae rhywfaint o ail-stocio eisoes wedi digwydd gyda 20,000 o wrachod bach wedi'u rhoi yn Alford Brook. At hynny, mae 10,000 o frwyniaid a 10,000 o gochgangod wedi cael eu rhoi yn y brif afon a bydd 1800 o farfogion a chochgangod hefyd yn cael eu rhoi yn yr afon ddechrau'r flwyddyn nesaf.